**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/452/21

Mike Hedges AS
Pennaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

seneddNHAMG@senedd.cymru

13 Ionawr 2021

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethaol Atodol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU.

Rwy’n fodlon i gynorthwyo ystyriaeth y Pwyllgor o’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol drwy ymateb i’r cwestiynau a amlinellwyd yn eich llythyr.

**Cwestiwn 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi y polisi a gynigwyd gan y ddarpariaeth oherwydd ein bod yn cytuno ei fod yn rhan o adferiad hanfodol o COVID-19, ac mae’n helpu inni greu economi fyd-eang wyrddach, decach a mwy cadarn. Mae gwarchod amgylcheddau coedwigoedd gwerthfawr yn ganolog i fynd i’r afael â’r newid hinsawdd, gan sicrhau bod gan bobl fywoliaethau ddiogel, ac i warchod y systemau naturiol yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer y bwyd yr ydym yn ei fwyta, y dŵr yr ydym yn ei yfed a’r aer yr ydym yn ei anadlu.

Bu busnesau cyfrifol yn arwain y ffordd wrth sefydlu cadwyni cyflenwi cynaliadwy i warchod coedwigoedd, ac mae’r polisi hwn yn anelu at gefnogi a chadarnhau’r ymdrechion hyn. Rydym yn cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno cyfraith newydd wedi’i chynllunio i atal coedwigoedd ac ardaloedd naturiol pwysig eraill rhag cael eu troi yn dir amaethyddol yn anghyfreithlon.

Byddai’r gyfraith rydyn ni’n ei chynnig yn gweithio drwy ganiatáu i nifer cymharol fechan o fusnesau mawr i wneud yn siŵr bod y nwyddau ‘rhoi coedigoedd mewn perygl’ y maent yn eu defnyddio – nwyddau allai achosi datgoedwigo eang iawn – wedi eu cynhyrchu’n gyfreithiol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y rheswm am hyn yw oherwydd, yn fyd-eang, nad yw cyfran fawr o'r achosion o glirio coedwigoedd ar raddfa fawr i gynhyrchu'r nwyddau hyn yn cael eu hystyried yn gyfreithiol.

Rydym yn cefnogi cyfeiriad Llywodraeth y DU er mwyn cynnal safle Cymru fel arweinydd byd-eang yn ein hymatebion i'r newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau natur. Nid ydym yn credu y byddai'n briodol disgwyl i nifer fechan o fusnesau mwy yr effeithir arnynt gan y rheoliad hwn orfod gweithio gyda phroses wahanol yng Nghymru o gymharu â rhannau eraill y DU. Byddai hyn yn arwain at gynnydd di-angen yng nghostau busnes o ganlyniad i gydymffurfio gyda mwy nag un cyfres o brosesau.

**Cwestiwn 2:**

Dechreuodd ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y gwelliant arfaethedig ar 25 Awst a daeth i ben ar 5 Hydref. Roedd rhanddeiliaid o Gymru yn gallu cymryd rhan er mwyn mynegi eu barn. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Tachwedd 2020:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/933985/due-diligence-forest-risk-commodities-government-response.pdf

**Cwestiwn 3:**

Rydym yn fodlon bod buddiannau Cymru yn cael eu diwallu'n ddigonol gan y ddarpariaeth hon oherwydd credwn ei bod yn well cael dull cyson o weithredu'r ddarpariaeth hon ledled y DU. Byddai hyn yn darparu dull symlach ac effeithlon ledled y DU.

**Cwestiwn 4:**

Nid ydym yn bwriadu ceisio unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth hon.

**Cwestiwn 5:**

Mae fy swyddogion wedi sicrhau cytundeb i gael eu diweddaru a'u hysbysu am hynt y gwaith o ddatblygu'r ddarpariaeth hon gan swyddogion DEFRA ac maent wrthi'n cytuno ar fanylion sut a phryd y bydd hyn yn digwydd.

**Cwestiwn 6:**

Derbyniodd swyddogion gadarnhad ar 8 Ionawr 2021 gan arweinwyr DEFRA:

'Bydd gorfodi'r gyfraith diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud gan un o reoleiddiwyr y Llywodraeth, a fydd yn helpu busnesau i ddeall y gofynion ac ymchwilio i'w cydymffurfiaeth, ond rydym yn dal wrthi'n cadarnhau pa reoleiddiwr (ledled y DU) fydd hwn. Gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol bellach yn destun craffu yn y Senedd ym Mesur yr Amgylchedd, rydym yn troi ein sylw at yr is-ddeddfwriaeth y bydd manylion gorau'r ddeddfwriaeth yn cael eu nodi drwyddynt ac at y canllawiau cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys mwy ar yr hyn y mae'n ofynnol i'r cwmnïau sydd o fewn cwmpas ei wneud a sut yn union y cânt eu monitro.'

Fel a nodir yn (5) uchod bydd fy swyddogion yn cysylltu gydag arweinwyr DEFRA i gael mwy o fanylion wrth i'r gwaith ddatblygu.

**Cwestiwn 7:**

Rydych yn gywir i nodi na chyflwynodd DEFRA Welliant gan y Llywodraeth i gryfhau dyletswydd i'r OEP ymgynghori â chyrff cyfatebol yn y cam Pwyllgor Gweinyddiaethau Datganoledig yn Nhŷ'r Cyffredin. Gallaf hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi dod i gytundeb mewn egwyddor â Defra i gyflwyno'r gwelliant i Gymal 26(1) yng Nghyfnod Tŷ'r Arglwyddi ac rwy'n fodlon â'r dull hwn.

Cofion

**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig